VOLUNTARY ACTION MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL MERTHYR TUDFUL

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

# *Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful*

# *Cynllun Iaith Gymraeg*

Mae'r cynllun gwirfoddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31.7.2009

## *1 Cyflwyniad*

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful ydy'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Ein bwriad ydy darparu gwasanaeth unigryw, o ansawdd sy'n cynrychioli, cefnogi, a chynorthwyo mudiadau gwirfoddol a gwaith gwirfoddol yn y Bwrdeistref Sirol i ddatblygu.

Ein gweledigaeth ydy:

- dod yn ganolfan ragoriaeth ym Merthyr Tudful ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu darparu i fudiadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol a gwaith gwirfoddol, a
- chreu cymdeithas sifil iach drwy gynorthwyo mudiadau i ddatblygu i gwrdd â'u hanghenion, cynyddu'r cyfleoedd i wirfoddoli a rhannu'n cenhadaeth gyda phob rhanddeiliad o'r tu allan.

Mae Gweithredu Merthyr wedi'i leoli yng nghanol tref Merthyr Tudful ac ar hyn o bryd yn cyflogi 23 gweithiwr. Mae 9 cynrychiolydd o fudiadau gwirfoddol lleol yn eistedd ar y Bwrdd ac mae ar ofyn poblogaeth o ryw 58,000 o drigolion. O'r rhain, mae 6000 neu 11% yn rhugl yn y Gymraeg.

Diben Polisi Cyfleoedd Cyfartal Gweithredu Merthyr ydy sicrhau ein bod yn trin pobl yn deg a chyfartal, ac nad ydy neb yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd hil, lliw, iaith, tras ethnig neu genedlaethol, anabledd, rhyw, statws priodasol, rhywioldeb, crefydd nac oed, ac na chaiff neb eu hanffafrio gan amgylchiadau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Mae Gweithredu Merthyr yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu teimladau a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, ac

- Mae'n cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn unol â dewis iaith y rhai fydd yn eu defnyddio.
- Mae'n cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da, nid cyfaddawd, ac y gall warafun iddynt yr hawl i ddefnyddio'u dewis iaith eu gosod o dan anfantais, ac
- Mae'n ymdrechu i roi'r dewis i bobl Cymru ddefnyddio un ai Saesneg neu Gymraeg wrth ymdrin â'r mudiad.

Er mwyn adlewyrchu dewisiadau iaith pobl leol mae Gweithredu Merthyr yn ymrwymo i roi cynllun iaith ar waith sydd wedi'i sylfaenu ar ganllawiau "O'n Gwirfodd." Canllawiau yw'r rhain a luniwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y sector gwirfoddol. Caiff y cynllun iaith gwirfoddol hwn ei anfon at Fwrdd yr Iaith er mwyn ei gymeradwyo, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

## *2 Datganiad o'n cenhadaeth ar gyfer y Gymraeg*

Mae Gweithredu Merthyr wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth fynd i'r afael â busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut bydd Gweithredu Merthyr yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## *3 Cyflwyniad i ddarparu gwasanaethau*

Caiff bob aelod o'r gweithlu eu hysbysu o ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd Gweithredu Merthyr yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith ynglŷn ag unrhyw gynnig a allai effeithio ar y cynllun. Ni cheir newid y cynllun hwn heb i Fwrdd yr Iaith gytuno o flaen llaw.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw bolisïau neu fentrau newydd a roddir ar waith yn gydnaws â gofynion y cynllun. Rydym hefyd yn ymrwymo i sicrhau y caiff y mesurau sydd yn y cynllun iaith eu cymhwyso i unrhyw bolisïau a mentrau newydd pan gânt eu rhoi ar waith.

**Ein Hymrwymiad**

- Defnyddio rhestr wirio Bwrdd yr Iaith i ganfod goblygiadau posib pob polisi a menter newydd ar yr iaith Gymraeg **o fis Medi 2009, Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

- Bydd y rhaglen anwytho ar gyfer staff newydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith **erbyn mis Medi 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwyr Atebol.**

- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y staff presennol o'r Cynllun Iaith . I'w wneud **erbyn Gorffennaf 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

- Caiff hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith ei roi i'r holl staff drwy gyfrwng pecyn hyfforddi Bwrdd yr Iaith **erbyn mis Hydref 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

## *4 Manylion ynglŷn â darparu gwasanaeth*

### 4.1 *Darparu gwasanaethau*

Mae Gweithredu Merthyr yn darparu ystod o wasanaethau cefnogi i fudiadau lleol o'r sector gwirfoddol. Caiff y rhain eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Swyddog, gyda'r cyfrifoldeb pennaf ar ysgwyddau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Fel rhan o'i swyddogaeth yn cynorthwyo a chefnogi mudiadau gwirfoddol lleol bydd Gweithredu Merthyr yn annog, cynorthwyo a chefnogi dwyieithrwydd ymhlith mudiadau gwirfoddol Merthyr Tudful. Bydd hefyd yn cynnig cyngor ar ddefnyddio deunydd dwyieithog ac ar

ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â Chanolfan a Menter Iaith Merthyr Tudful.

**Ein Hymrwymiad**

- Bydd Gweithredu Merthyr yn arolygu gofynion mudiadau gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful er mwyn canfod beth yw eu gofynion ieithyddol parthed darparu gwasanaethau. Caiff yr wybodaeth hon ei chadw ar gyfer diweddaru'r gronfa ddata, sy'n digwydd **bob blwyddyn ym mis Mai. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol**

- Bydd y Ganolfan Wirfoddoli yn cofnodi gwybodaeth am fedrau ieithyddol gwirfoddolwyr ac o'r medrau ieithyddol y mae ar gyrff gwirfoddol eu hangen. Bydd wedyn yn pennu gwirfoddolwyr i gyrff gwirfoddol fel bo'n briodol yn unol â gofynion cronfa ddata'r ganolfan wirfoddoli genedlaethol. **O fis Hydref 2009. Cyfrifoldeb: Swyddogion Gwirfoddoli**

4.2 ***Tegwch Safonau'r Gwasanaeth***

Mae Gweithredu Merthyr yn hapus i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n anelu at ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd yn y ddwy iaith.

Mae'n anelu at ddarparu gwasanaethau o safon uchel ym mhob agwedd o'i waith, yn unol â thelerau'r cynllun hwn. Fel gyda'i holl safonau, bydd Gweithredu Merthyr yn arolygu ac yn adolygu'r cynnydd mae'n ei wneud yn rheolaidd ochr yn ochr â'r cynllun.

**Ein Hymroddiad**

- Caiff y cynnydd a wneir mewn rhoi'r cynllun ar waith ei arolygu drwy'r flwyddyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu **a chaiff adroddiad blynyddol ei lunio ar ôl dyddiad cymeradwyo'r cynllun.**

***Person Cyswllt***

Mae croeso i unrhyw un gysylltu â Gweithredu Merthyr ynglŷn â chynnwys y cynllun. Person Cyswllt Gweithredu Merthyr ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd ydy Hilary Edwards, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu

## *5 Cysylltu â Gweithredu Merthyr*

Caiff bob aelod o staff eu hannog i fynychu cwrs sylfaenol Cymraeg yn y Gweithle **i'w gyflwyno erbyn mis Tachwedd 2009**

Yn dilyn yr hyfforddiant cychwynnol hwn, caiff bob aelod o staff eu hannog a'u cefnogi i barhau i ddysgu'r Gymraeg os ydynt yn dymuno. Caiff cynnydd gyda'r ymroddiad hwn ei arolygu'n **barhaol. Cyfrifoldeb: Rheolwyr Atebol**

### *5.1 Polisi ynglŷn â chysylltu dros y ffôn*

Mae Gweithredu Merthyr yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Bydd cyfarchion wrth ateb yn ddwyieithog yn ôl y drefn safonol. Felly hefyd negesau peiriant ateb y Switsfwrdd i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff cynnydd gyda'r ymroddiad hwn ei arolygu'n **barhaol. Cyfrifoldeb: Prif Swyddog**

**Ein Hymrwymiad**

- Mae cyfarchion wedi'u safoni ac yn ddwyieithog
- Mae negesau peiriant ateb y switsfwrdd yn ddwyieithog
- Caiff bob aelod o staff eu hannog i gael hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle sylfaenol er mwyn eu galluogi i gyfarch yn ddwyieithog, ac i gael sgwrs gychwynnol elfennol gyda'r unigolyn sy'n ffonio. **O fis Rhagfyr 2009.**
- Bydd canllaw ysgrifenedig ar gael i bob aelod o staff ynglŷn ag ateb y ffôn yn Gymraeg **erbyn mis Rhagfyr 2009.**

### 5.2 *Gohebiaeth ysgrifenedig*

Mae Gweithredu Merthyr yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Ni fydd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi di angen mewn ymateb. Caiff atebion eu harwyddo a'u hanfon yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.

**Ein Hymrwymiad**

- Safoni'r arfer o nodi y caiff gohebiaeth ei chroesawu yn y ddwy iaith **o fis Awst 2009**. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn ein cylchlythyr hefyd.

- Cadw at yr arfer o ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig yn yr iaith y derbyniwyd hi.

- Cynnal y berthynas gyda chwmnïau cyfieithu priodol

- Deunyddiau priodol ar gael i gynorthwyo staff fel meddalwedd gwirio sillafu a'r defnydd o wefannau cyfieithu **o fis Medi 2009.**

## 6 Cyfarfodydd a Digwyddiadau

Mae Gweithredu Merthyr yn trefnu llawer o gyfarfodydd a chynadleddau allweddol, sy'n cael eu mynychu gan lawer o rwpiau gwahanol. Ein bwriad ydy galluogi'r rheini sy'n dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath i wneud hynny. Bydd hysbysiadau am gyfarfodydd a gânt eu hanfon allan o flaen llaw yn annog mynychwyr i adael i ni wybod ym mha iaith yr hoffent gyfathrebu. Caiff trefniadau eu gwneud yn sgîl yr ymatebion a gawn.

**Ein Hymrwymiad**

- Hysbysiadau am gyfarfodydd allweddol a'r bonion ymateb i gynnwys cwestiwn ar iaith

- Yn sgîl yr ymatebion hyn, sicrhau bod canllawiau ar gael ar gyfer cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd.

### 6.2 Cyfarfodydd Eraill

Mae Gweithredu Merthyr yn anelu at sicrhau y gall unigolion a chynrychiolwyr grwpiau gyfathrebu wyneb yn wyneb â chynrychiolydd o Weithredu Merthyr yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Unwaith i ddewis iaith gael ei benderfynu arni, byddwn yn cyfathrebu gyda'r grŵp hwnnw yn eu dewis iaith o hynny allan.

## 7 Delwedd Gyhoeddus

Mae Gweithredu Merthyr yn ymgyrraedd at sefydlu a chynnal delwedd gwbl ddwyieithog i'r mudiad. Bydd y ddwy iaith yn gydradd yn nhermau ffont, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

**Ein Hymrwymiad**

- Cadw penawdau llythyr, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, taflenni gwybodaeth, ffurflenni cais am gyllid ayyb yn ddwyieithog **Cyfrifoldeb: Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol / Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

- Bydd ffurflenni cais am aelodaeth, ffurflenni cofrestru gwirfoddolwyr, polisïau (polisi cwyno e.e.) a phob dogfennaeth sy'n ymwneud â'r rhain ar gael yn ddwyieithog **erbyn mis Rhagfyr 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol / Swyddogion Gwirfoddoli**

7.1 **Arwyddion**

Bydd pob arwydd tu mewn a thu allan yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael amlygrwydd cyfartal.

**Ein Hymrwymiad**

- Bydd pob arwydd tu mewn yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael amlygrwydd cyfartal. **Parhaol. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol**

- Caiff unrhyw arwyddion uniaith Saesneg sy'n aros eu newid am rai dwyieithog pan ddaw hi'n amser eu hadnewyddu. **Parhaol. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol**

7.2 **Cyhoeddiadau**

**Cyhoeddiadau Cyffredinol**

Bydd pob taflen wybodaeth gyffredinol a thaflenni gwirfoddoli yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

**Cylchlythyr**

Mae'r cylchlythyr yn cynnwys atodiad cenedlaethol dwyieithog Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar hyn o bryd.

**Ein Hymrwymiad**

- Drwy gydweithio â Chanolfan a Menter Iaith Merthyr bydd Gweithredu Merthyr yn anelu at gynyddu'r nifer o erthyglau Cymraeg yn unig ac erthyglau dwyieithog. **Parhaol. Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

- Bydd ein harolwg gofal cwsmeriaid nesaf yn asesu barn ein haelodau ynglŷn â threfn ddwyieithog gyflawn. Bydd hyn yn digwydd **ym mis Ebrill 2010**.

**Gwefan**

Bydd fframwaith a chynnwys parhaol gwefan Gweithredu Merthyr yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yr un mor amlwg. Bydd yr eitemau newyddion yn Saesneg yn unig.

**Ein Hymrwymiad**

- Bydd y wefan wedi'i diwygio a bydd yna fersiynau Cymraeg ar gael **erbyn mis Hydref 2009**

- Bydd barn ein haelodau ynglŷn â threfn gwbl ddwyieithog yn cael ei hasesu **ym mis Ebrill 2010**

**Adroddiad Blynyddol**

Caiff adroddiad blynyddol cwbl ddwyieithog ei gynhyrchu ar hyn o bryd

**Ein Hymrwymiad**

- Byddwn yn parhau i weithio gyda dylunwyr allanol i sicrhau y caiff canllawiau Bwrdd yr Iaith ar ddyluniad dwyieithog eu dilyn.

- Caiff yr holl gyhoeddiadau allweddol eraill eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

**Cyswllt â'r Wasg**

**Ein Hymrwymiad**

- Caiff bob datganiad i weisg cenedlaethol eu gwneud yn ddwyieithog. **Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

- Rydym yn anelu at sicrhau y caiff manylion cyswllt o leiaf un siaradwr Cymraeg eu rhoi ar y datganiad. **Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

**8 Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu**

Bydd unrhyw arddangosfeydd sy'n hyrwyddo a hysbysebu gwaith Gweithredu Merthyr yn ddwyieithog.

**Ein Hymrwymiad**

- Bydd unrhyw hysbysebu mae'r Ganolfan Wirfoddoli yn ei wneud yn ddwyieithog
- Mae pob deunydd sydd i gael ei arddangos yn ddwyieithog

- Mae pob hysbyseb gyfundrefnol yn ddwyieithog

**Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu**

## 9 Hysbysebu a Llenwi Swyddi

**Llenwi Swyddi**
Wrth lenwi swyddi mae Gweithredu Merthyr yn anelu at drin pob sector o'r gymuned yn gyfartal, ac i sicrhau fod y ffordd y caiff swyddi eu llunio, eu hysbysebu a'u llenwi yn gydnaws â'n polisi cyfle cyfartal. Mae Gweithredu Merthyr yn sylweddoli y bydd bod yn rhugl yn y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer rhai swyddi.

**Ein Hymrwymiad**

Wrth ymgeisio am gyllid ar gyfer staff ychwanegol, bydd trafodaeth lawn yn digwydd ynglŷn ag anghenion ieithyddol y mudiad a'r swydd dan sylw.

**Hysbysebu Swyddi**

Dylai hysbysebion swyddi fod yn ddwyieithog yn y wasg genedlaethol ac yn Gymraeg yn unig pan gyhoeddir yr hysbysebion yn y wasg Gymraeg ei hiaith.

Ar gyfer unrhyw swydd lle ystyrier y Gymraeg yn ofyniad hanfodol, bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn Gymraeg yn unig, gydag esboniad byr yn Saesneg.

**Hyfforddiant a Datblygiad**

Bydd Gweithredu Merthyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael i gynnig gwasanaeth dwyieithog effeithiol. Bydd Gweithredu Merthyr yn annog ac yn cefnogi staff i wella'u medrau yn yr iaith Gymraeg drwy neilltuo arian ac amser ar eu cyfer.

**Ein Hymrwymiad**

- Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan a Menter Iaith Merthyr Tudful i ddod o hyd i ddosbarthiadau Cymraeg addas ac o safon i staff perthnasol o **fis Gorffennaf 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

- Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg a medrau ateb ffôn yn Gymraeg o fis **Gorffennaf 2009. Hyfforddiant i'w roi erbyn mis Rhagfyr 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

11 **Gweithredu'r cynllun a chyfrifoldeb**

Bydd y staff a'r Bwrdd yn cytuno ar y cynllun. Y Prif Swyddog fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu a'i arolygu. Bydd disgwyl i'r Rheolwyr Atebol sicrhau bod aelodau o'u tîm yn gweithredu'r cynllun. Ar hyn o bryd, Hilary Edwards sy'n gyfrifol am y cynllun, ac am drin ag unrhyw ymholiad sy'n gysylltiedig ag o. Petai hyn yn newid, bydd y cynllun yn adlewyrchu'r newid hwn, a chaiff fudiadau sy'n aelod eu hysbysu'n ysgrifenedig.

**Ein hymrwymiad**

- Caiff canllaw ysgrifenedig ynglŷn â'r cynllun ei roi i'r holl staff ac i bob aelod o'r Bwrdd **erbyn mis Hydref 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

- Cyfarwyddiadau a threfniadau ynglŷn â chael cyfieithwyr proffesiynol i gyfieithu deunydd i'w cyflwyno **erbyn Hydref 2009. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu**

**Cwynion**

Caiff yr holl gwynion ynglŷn â'r cynllun eu trin yn unol â threfn gwyno gyhoeddedig Gweithredu Merthyr. Mae Gweithredu Merthyr yn croesawu argymhellion gan ei staff, ymddiriedolwyr ac aelodau ynglŷn â sut i wella'r Cynllun Iaith Gymraeg sydd ganddo a'r gwasanaeth Gymraeg mae'n ei chynnig.

12 **Arolygu**

Byddwn yn gwerthuso'r modd y caiff y cynllun ei weithredu drwy edrych ar y dyddiadau targed sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Caiff ein cyrhaeddiad ei adolygu'n flynyddol, o'r dyddiad y cafodd y cynllun ei gymeradwyo. **Caiff gopi o'r adroddiad hwn ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac i Fwrdd yr Iaith yn flynyddol.**

**Adolygu'r cynllun**

Caiff y Cynllun Iaith a'r nodau sydd wedi'u cynnwys ynddo eu hadolygu yn eu cyfanrwydd ar ôl cyfnod o bedair blynedd er mwyn gwerthuso'r angen am ddiwygio'r cynllun a chynhyrchu cyfres newydd o dargedau.

**Ein Hymrwymiad**

Byddwn yn adolygu'r cynllun a'r dyddiadau targed sydd wedi'u cynnwys ynddo gyda chymorth Bwrdd yr Iaith **ym mis Ebrill 2013. Cyfrifoldeb: Rheolwr Gwasanaethau Datblygu a Bwrdd yr Iaith.**

## 13 Cyhoeddusrwydd

Bydd Gweithredu Merthyr yn anelu at sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd, staff, mudiadau sy'n aelodau, mudiadau sy'n bartneriaid, cyllidwyr a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg sydd ganddo. Bydd yn sicrhau fod unrhyw un sy'n ymwneud â Gweithredu Merthyr neu sy'n defnyddio'i wasanaethau yn ymwybodol o'r cynllun. Bydd copïau o'r cynllun, mewn diwyg dwyieithog, ar gael am ddim i fudiadau sy'n aelodau, i aelodau'r Bwrdd ac i'r cyhoedd ar wefan Gweithredu Merthyr.

### Ein Hymrwymiad

Bydd cylchlythyr Gweithredu Merthyr "Inform" yn cynnwys paragraff gosod ym mhob cyhoeddiad yn nodi fod gennym ni Gynllun Iaith Gymraeg a'n bod yn croesawu pobl i gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. **Parhaol. Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu.**

Bydd gwefan Gweithredu Merthyr yn cynnwys dolen fydd yn galluogi pobl i weld y Cynllun Iaith **erbyn mis Hydref 2009. Cyfrifoldeb: Swyddog Cyfathrebu.**